

Ymgynghoriad cyhoeddus ar Wasanaethau Dwyieithog cyn y broses ddeddfu

Tystiolaeth gan Elin Wyn

**YMATEB I'R YMGYNGHORIAD AR WASANAETHAU DWYIEITHOG
CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU.**

ODDI WRTH:

Elin Wyn
Ymgynghorydd Cyfathrebu
17 Bernard Avenue,
Parc Victoria
Caerdydd CF5 1BT

elin@elinwyn.co.uk

029 2056 1192

Rwy'n croesawu bwriad y Cynulliad Cenedlaethol i gyflwyno Bil Ieithoedd Swyddogol a Chynllun Gwasanaethau Dwyieithog.

Yng nghorff y Bil drafft hoffwn weld datganiad clir bod y Cofnod yn gwbl ddwyieithog.

O ran y Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog drafft fy mhryder pennaf yw nad oes unrhyw berson neu gorff diduedd, annibynnol, allanol yn mynd i sicrhau bod y Comisiwn a'r Cynulliad yn cyflawni'r hyn sy'n cael ei amlinellu yn y Cynllun. Credaf ei bod yn hollbwysig, er mwyn hygyrdd y Cynllun bod yna fecanwaith i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei weithredu yn effeithlon ac er mwyn i staff, aelodau cynulliad a'r cyhoedd fedru cyflwyno cwyn am weithrediad y cynllun. Er mwyn sicrhau tryloywder dylai'r mecanwaith yna fod ar wahân i Gomisiwn y Cynulliad ei hun.

Er enghraifft, fe allai achos godi pan fo aelod o staff y Cynulliad yn gweithio mewn adran benodol a'i fod ef neu hi yn teimlo ei bod yn cael triniaeth annheg parthed gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai'r person hwnnw deimlo'n anghyfyrdus yn cwyno wrth ei reolwr llinell neu at reolwyr uwch, megis Clerc y Cynulliad. Petasai strwythur apêl allanol, annibynnol yn bodoli byddai'r person hwnnw fwy na thebyg yn teimlo'n barotach i gwyno a theimlo ei fod yn mynd i gael gwrandawriad teg, diduedd.

Hoffwn awgrymu y gallai Comisiwn y Cynulliad benodi panel bychan o dri o bobol fyddai'n gallu goruchwilio gweithrediad y Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog gan dderbyn adroddiad blynyddol gan y Clerc ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni. Byddai'r panel yn cytuno ar dargedau gyda'r Comisiwn ar gyfer gweithredu'r Cynllun yn y flwyddyn olynol. Byddai'r panel hefyd yn gallu derbyn ac ymchwilio i gwynion gan aelodau o'r cyhoedd, aelodau staff ac aelodau cynulliad parthed gweithredu'r Cynllun ac awgrymu unrhyw gamau gwella i'r Comisiwn. Byddai aelodau'r panel yn bersonau annibynnol, diduedd, heb gysylltiad ag unrhyw blaid wleidyddol. Er mwy gweithredu yn effeithlon dylai'r panel gael cefnogaeth ysgrifenyddiaeth o blith staff y Comisiwn.